Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Mawrth 14eg, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Roy Davies, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Dawn Wallace,
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy

Cof 209/ Mawrth / 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/15500 Estyniad patio yn 58, Heol Rhosmaen.
Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cadwraeth.

Cof 210 / Mawrth / 07 Doedd yna ddim Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Cof 211 / Mawrth / 07 Trafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Adroddiad o'r Cyfarfod ar y Cyd a gynhaliwyd er mwyn ystyried Taliadau Maes Parcio. Roedd y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Dawn Wallace wedi mynychu'r cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Tref Rhydaman, a Siambr Fasnach Llanymddyfri.

Cof 212/ Mawrth / 07 Adroddiad ar Lwybrau Troed.
Dywedodd y Swyddog Technegol yr agorir y Tendrau ar gyfer y cytundeb cynnal a chadw llwybrau troed ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod am 5pm ddydd Mawrth 27ain Mawrth yn Neuadd y Sir. Cytunwyd y dylid gwahodd Caroline Ferguson o CSC i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol er mwyn iddi roi gwybodaeth am ei gwaith fel Swyddog Llwybrau Troed.

Cof 213 / Mawrth / 07 Adnewyddu Swyddfa.
Dywedodd y Swyddog Technegol fod Mr Dilwyn Thomas yn llunio cynlluniau ac amcanbrisau er mwyn adnewyddu'r Gegin. Cyflwynir y rhain mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar Fawrth 28ain.

Cof 214 / Mawrth 07 Gohebiaeth
1. Gohebiaeth gan Mr John McEvoy (CSC) yn hysbysu'r Cyngor o'r cyfarfod sydd i'w gynnal ddydd Gwener, Mawrth 16eg am 1pm mewn perthynas â'r Mannau Parcio i'r Anabl. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn mynychu.

Cof 215 / Mawrth / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhellodd y Cyng Roy Davies y dylid anfon llythyr at Mr Mark James yn holi pa gamau fydd CSC yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod cyfanrwydd pensaernïol y Neuadd Farchnad yn parhau, neudd a roddwyd i'r Dref gan deulu Stepney Gulston, yn ogystal ag elfen o fynediad i'r cyhoedd, wedi iddo ei werthu.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm